PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Lay a/ac Goddard |

42 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

43 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion 8 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

44 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORWYR | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| HUDSON | 17/01735/MJR | Aeth i'r Felindre Gweithdy |
| GODDARD | 17/01935/MJR | Cynghorydd Ward |
| JONES-PRITCHARD | 17/01735/MJR | Ysgol Gynradd Coryton Llywodraethwyr Gwrthwynebwyd y cais. |

45 : GORCHYMYN DILEU - MEADOWLARK CLOSE

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wneud Gorchymyn Dileu dan Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980.

Mae angen gwaredu ar rhan hon y Priffyrdd er mwyn cyd-fynd ag ailgynllunio cynllun Adfywio Cymdogaethau.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu Gorchymyn Gwyro Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980.

46 : GORCHYMYN GWYRO - LLYSFAEN 30

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wneud Gorchymyn Gwyro llwybr dan Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980.

Roedd perchnogion Panteg Farm yn ceisio cael gwyro'r llwybr Hawliau Tramwy Cyhoeddus oddi wrth adeilad y fferm a dilyn ffurf naturiol y safle.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu Gorchymyn Gwyro Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980.

47 : DEISEBAU

Cais rhif 17/01435/MNR, 23-24 Wordsworth Avenue
Cais rhif 17/01735/MJR, tir i'r gogledd-orllewin o Ysbyty'r Eglwys Newydd.
Cais rhif 17/02413/MNR, 32 Clos Nant y Cor
Cais rhif 17/01963/MJR tir oddi ar Mynachdy Road
Cais rhif 17/01801/MJR, Droke House, 948 Heol Casnewydd

48 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Penderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir i'r Pwyllgor hwn ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

## CEISIADAU A GANIATEIR

17/02161/MNR – PEN-Y-LAN

301 ALBANY ROAD
Cynnig estyniad i'r cefn, trosiad llofft gyda ffenestri cromen cefn a throsi'r annedd i greu 4 fflat.

Yn amodol ar ychwanegu Amod 8 a fydd yn darllen:

'Ni chaiff to fflat yr estyniad unllawr ei ddefnyddio fel balconi nac unrhyw amwynder nac ardal eistedd y tu allan.'

17/02413/MJR – PONTPRENNAU/PENTREF LLANEIRWG

32 CLOS NANT Y COR
Addasu to 32 Clos Nant y Cor ynghyd ag annedd unigol ychwanegol.

## CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/00265/MJR – CYNCOED

25 HOLYBUSH ROAD
Dymchwel y tŷ presennol a'r adeiladau allanol a rhoi caniatâd amodol ar gyfer tair annedd ar wahân a chadw pob mater.

17/01253/MJR – CYNCOED

212 CYNCOED ROAD
Cynnig dymchwel annedd bresennol a chodi datblygiad newydd i greu 5 fflat.

17/01435/MJR – PLASNEWYDD

23-24 WORDSWORTH AVENUE
Dymchwel yn rhannol yr adeiladau presennol a chodi 1 x tŷ 4 ystafell wely ac estyn a throsi i ffurfio 7 fflat annibynnol (3 x 2 ystafell wely a 4 x 1 ystafell wely) gyda pharcio ar y safle, storfa beics, ysbwriel a chyfleusterau amwynder.

17/01735/MNR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS

TIR I'R GOGLEDD-ORLLEWIN O GAEAU CHWARAE YSBYTY'R EGLWYD NEWYDD
Cynnig Canolfan Ganser y Felindre yn cynnwys Canolfan Driniaeth Canser arbenigol, Canolfan Addysg, Ymchwil a Datblygu, prif fynediad (o Gyfnewidfa Croyton), Mynediad Mewn Argyfwng (trwy Ystâd Llwyncelyn), mynediad/parcio dros dro i adeiladwyr, canolfan ynni, gwaith tirlunio, llwybrau cerdded a Chanolfan Maggie.

17/01801/MJR – PONTPRENNAU/PENTREF LLANEIRWG

DROKE HOUSE, 948 HEOL CASNEWYDD
Codi 33 fflat fforddiadwy, mynediad a gwaith cysylltiedig.

17/01869/MJR – PLASNEWYDD

11-13 HEOL Y PLWCA
Adeilad 10 llawr yn cynnwys 117 uned i fyfyrwyr, llawr gwaelod defnydd A1/A3 (100 metr sgwâr) a seilwaith a chyfleusterau cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 15 i nodi:

'Os canfyddir heintio ar unrhyw adeg wrth wneud y gwaith datblygu a gymeradwywyd, na chanfuwyd ynghynt, bydd yn rhaid cyfleu'r wybodaeth mewn ysgrifen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 2 ddiwrnod; bydd yn rhaid oedi'r holl waith ac ni chaiff gwaith datblygu pellach fynd rhagddo oni chytunir mewn ysgrifen, tan gymeradwyir cynllun i drin yr haint. Mae'n rhaid cynnal ymchwil ac asesiad risg ac os oes angen unioni cam, llunnir cynllun unioni a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a hwnnw i'w gymeradwyo yn ysgrifenedig. Yn dilyn cwblhau mesurau a nodir yn y cynllun unioni a gymeradwywyd, mae'n rhaid cyflwyno adroddiad dilysu i'w gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cytuno'r amserlenni ar gyfer y camau gweithredu uchod gyda'r ACLl o fewn pythefnos wedi darganfod unrhyw heintio posibl.'

17/02181/MNR - GABALFA

TŶ ALEXANDER, EXCELSIOR DRIVE

Dymchwel yr adeilad swyddfeydd presennol ac ailddatblygu'r safle i greu llety myfyrwyr 213 ystafell wely mewn 3 bloc (3-5 llawr o uchdwr), cymysgedd hyblyg o ddefnydd masnachol (A1/A2/A3/B1A/D1) mewn dwy uned ar lawr gwaelod y bloc canol (bloc B) ynghyd â maes parcio, tirlunio a seilwaith cysylltiedig.

## CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

17/01292/MJR – BUTETOWN

TIR YN SUFFOLK HOUSE, TRADE STREET
Caniatâd cynllunio amodol ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol ac ailddatblygu'r safle ar gyfer llety myfyrwyr newydd.

RHESWM: Er mwyn i Swyddogion ddrafftio rhesymau posibl dros wrthod.

17/01935/MJR – TRELÁI

THE MICHAELSTON, 105 MICHAELSTON ROAD
Newid defnydd o dafarn (A3) i fanwerthu (A1) gydag estyniad 'cefn y tŷ' a gwaith i adnewyddu fflat ar y llawr gwaelod, bloc amlddefnydd newydd 3 llawr a manwerthu (A3) ar y llawr gwaelod a 9 fflat uwchben a lle parcio i bob un, a newidiadau cysylltiedig i'r tirlun.

RHESWM: Er mwyn i Swyddogion ddrafftio rhesymau posibl dros wrthod.

## CEISIADAU A DYNWYD YN ÔL

17/01963/MNR - GABALFA

TIR ODDIR AR MYNACHDY ROAD
Codi llety tri llawr 5 bloc i fyfyrwyr, yn cynnwys 350 o ystafelloedd gwely gyda thirwedd galed a meddal, man parcio beics, storfa finiau, parcio i bobl anabl a chanolfan gymunedol gyda man parcio cysylltiedig.

RHESWM: Tynnwyd yn ôl ar gais yr ymgeisydd.

49 : CEISIADAU A BENNIR GAN Y PWERAU DIRPRWYEDIG

Rhagfyr 2017

50 : EITEM(AU) BRYS (OS OES RHAI)

GWAHARDD Y CYHOEDD

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor na chyhoeddir yr adroddiad hwn oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chytuno ar y ffordd ymlaen a nodir yn yr adroddiad.

51 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10 Ionawr 2018